

RICHARDSON, EVAN (1759 - 1824), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac ysgol-feistr

Enw: Evan Richardson
Dyddiad geni: 1759
Dyddiad marw: 1824
Rhiant: Rhisiart Morys Huw
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac ysgol-feistr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1759 yn y Bryngwyn Bach, Llanfihangel-genau'r-glyn, yn fab i saer maen o'r enw Rhisiart Morys Huw - a gelwid yntau fynyachaf yn 'Evan Richards,' nid yn unig ar lafar gwlad ond yn llythyrau [Thomas Charles](#) ac yng nghofnodion y Methodistiaid Calфинаidd yn ei ddydd. Dywedodd [Lewis Edwards](#) rywdro fod Richardson yn 'ewythr' iddo. Bwriedid ef i'r offeiriadaeth a bu yn Ystrad Meurig dan [Edward Richard](#), ond daeth dan ddylanwad [Daniel Rowland](#); cefnodd ar yr Eglwys (ac ar ei deulu o'r herwydd), a chychwynnodd ysgol tua Llanddewi-brefi. Ar daith i'r gogledd fel 'cyfaill' pregethwr, dechreuodd bregethu (1781), ac ar anogaeth [Robert Jones](#) Rhoslan agorodd ysgol (1782) ym Mrynengan; symudodd hi wedyn i Bwllheli ac oddi yno i Langybi Eifionydd. Cododd gwrthwynebiad iddo yno, a symudodd yntau (1787) i dref Caernarfon. Bu ei ysgol yn bwysig iawn yn hanes addysg pregethwyr Methodistaidd ei dydd, a gwelir mynych gyfeiriad ati yn eu cofiannau - y ddeuddyn enwocaf a fu ynddi yng Nghaernarfon oedd [John Elias](#) a ([Syr](#)) [Hugh Owen](#); rhoes Richardson hi i fyny tua 1817 pan ddechreuodd ei iechyd dorri, a chymerwyd ati gan [William Lloyd](#). Gydag Evan Richardson, i bob pwrpas ymarferol, y cychwyn Methodistiaeth Caernarfon. [David Jones](#) (Llangan), a bregethodd gyntaf yno o blith y Methodistiaid Calфинаidd, yn 1786, ac yn 1787 (cyn mynd i fyw i'r dref) pregethodd Richardson gyda [John Roberts](#) (1752 - 1834), wrth dalcen capel Annibynnol Pen-dref, gyda chefnogaeth y gweinidog [George Lewis](#). Yn fuan wedyn cymerth lofft yn Nhan-yr-allt ar ffordd Bethel i gynnal moddion; ac yn 1793 codwyd capel cyntaf y Methodistiaid Calфинаidd yn 'Mount Pleasant,' rhagflaenydd capel Moreia (1826). Ordeiniwyd Richardson yng ngwasanaeth ordeinio cyntaf y Methodistiaid Calфинаidd, yn y Bala, 1811. Yn 1817, aeth ei iechyd yn ddrwg; cafodd ergyd o'r parlys ac ni phregethodd wedyn gymaint â chynt. Bu farw 29 Mawrth 1824, yn 65 oed, a chladdwyd yn Llanbeblig. Bu'n briod ddwywaith.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96), ail arg., ix, 485

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868), 829-34 (disgrifiad ohono fel pregethwr)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), ii, 322-4

D. Hoskins, *Canmlwyddiant Capel Moriah, Caernarfon. Hanes yr Eglwys o'i chychwyniad yn y lloft yn Tanrallt, hyd adeg canmlwyddiant y capel presenol yn Hydref 1926* (Caernarfon 1926), 19-49

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20748826](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

